Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

# Cronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol

## Gwybodaeth gefndir

Mae i Gymdeithasau a Sioeau Amaethyddol hanes hir a chlodfawr ac maen nhw wrth galon cymunedau gwledig yng Nghymru. Mae i bob un rôl bwysig wrth hyrwyddo ffermio a chynhyrchu bwyd cynaliadwy i'r cyhoedd ehangach ac wrth gynnal cydlyniant cymunedol, ein diwylliant, a'r agenda gwell iechyd.

O ganlyniad i'r pandemig COVID-19, cafodd y rhan fwyaf, os nad pob un o'r sioeau amaethyddol ar draws Cymru eu canslo yn 2020 a bydd nifer fawr yn cael eu canslo yn 2021.

Mae hi'n bwysig fod Cymdeithasau sioeau amaethyddol yn gallu dychwelyd i sefyllfa o rywfaint o normalrwydd ar ôl y pandemig sy'n cynnwys ailgyflwyno sioeau amaethyddol ar draws Cymru. Yn 2020, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad byr o gadernid sioeau amaethyddol, gyda ffocws arbennig ar y canlynol:

- Beth yw'r problemau sy'n wynebu cymdeithasau a sioeau amaethyddol?
- Pa gymorth allai fod ei angen i helpu cymdeithasau amaethyddol ar yr adeg yma?
- Sut all Cymdeithasau helpu ei gilydd a'r gymuned amaethyddol?
- Beth fyddai'n helpu i adfer y sioeau y tymor nesaf?

Roedd un o'r argymhellion o'r adroddiad yn cynnwys sefydlu 'cronfa arloesi' trwy ba un y gall sioeau o bob maint wneud cais am gymorth ariannol i gyflenwi atebion newydd ac arloesol i'r heriau presennol.

**Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) yn gweinyddu Cronfa Arloesi Sioeau Amaethyddol (y Gronfa Arloesi) ar ran Llywodraeth Cymru.**

| | |
|---|---|
| **Pot Ariannu** | - £25,000 |
| **Agoriad ceisiadau** | - 18 Mehefin 2021. |
| **Dyddiad Cau** | - 16 Gorffennaf 2021 am 5yh |
| **Sut i wneud cais** | Mae'r ffurflen gais ar gael ar www.cafc.cymru. Dylid anfon ceisiadau wedi'u cwblhau at Mared Jones (Pennaeth Gweithrediadau), trwy e-bostio mared@rwas.co.uk. Byddir yn derbyn ceisiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg. |
| **Cymhwystra** | Mae'r Gronfa Arloesi yn agored i drefnwyr pob sioe neu ddigwyddiad sy'n hyrwyddo amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae croeso i geisiadau ar y cyd. |

**Nod** Nod y Gronfa Arloesi yw annog atebion arloesol i helpu i gwrdd â'r heriau presennol ac i gynorthwyo cydweithrediad rhwng Cymdeithasau sioeau amaethyddol.

Bydd y Gronfa Arloesi yn cefnogi prosiectau newydd yn unig – ni fydd dim gweithgareddau ôl-weithredol yn cael eu hystyried.

**Categorïau** - Mae 3 chategori ariannu.
**Categori 1** - Arloesi trwy'r pandemig
**Categori 2** - Arloesi o fewn y "normal newydd"
**Categori 3** - Arloesi sy'n annog cydweithrediad.

**Er nad ydynt wedi'u cyfyngu iddynt, disgwylir i geisiadau ystyried o leiaf un o'r meini prawf canlynol:**

- Cyflawni effeithlonrwydd
- Gweithio mewn partneriaeth
- Cydymffurfio ag Iechyd a Diogelwch
- Defnydd technoleg
- Lleihau carbon
- Cyfathrebu
- Rheoli gwastraff
- Ymgysylltu â'r genhedlaeth nesaf
- Hyrwyddo'r Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
- Trosglwyddo gwybodaeth ac addysg
- Gwella taith y cwsmer
- Cydymffurfio â bioddiogelwch

**Mae'r eitemau y gall y Gronfa Arloesi dalu amdanynt wedi'u nodi isod. Sylwer nad yw hon yn rhestr gyflawn:**

- **Offer**
  e.e. - darllenydd EID, System Dalu Di-arian Parod, offer Podledu, ap Marchnata CANVA.
- **Digwyddiadau un-tro**
  e.e. – Gŵyl fwyd, sioe Gŵn, sioe Geffylau, Gŵyl Arddwriaeth/Gardd ayb
- **Costau Hyfforddi / Datblygu Staff**
  e.e. – Darparu hyfforddiant cyfryngau cymdeithasol neu farchnata.
- **Costau'n gysylltiedig â darparu'ch digwyddiad yn ddwyieithog.**
  e.e. - Costau cynhyrchu atodlen ddwyieithog, arwyddion, tystysgrifau/rhosedau.
- **Platfform cyfathrebu ar-lein**
  e.e. – Trefnu sioe rithiol, gwefan, platfform cynigion ar-lein, podlediadau.
- **Cydymffurfio â Covid**
  e.e. – Gwneud eich digwyddiad yn ddiogel o ran Covid, cyfleusterau golchi dwylo, arwyddion, asesiadau risg ayb.
- **Addysg**
  e.e. – Taflenni gwybodaeth, diwrnod addysgol, podlediadau, digwyddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol.

- **Ymgysylltu â'r Gymuned**

  e.e. – Boreau coffi, platfformau cyfryngau cymdeithasol, cyflwyno cystadlaethau newydd, cydweithredu â sioeau eraill.

**Costau Anghymwys**

Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o wariant nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth grant.

- Prynu tir
- Prynu adeiladau
- Costau cynnal a chadw'r adeiladau presennol.
- Prynu cerbydau
- Taliadau i reolwyr tir am ymgymryd â gweithgareddau ar eu tir.
- Costau ariannol, gorbenion, a thaliadau yswiriant
- Costau trefnu benthyciadau, TAW a threthi eraill gan y buddiolwr, costau gweinyddol a chostau staff.
- Costau sydd mewn bod.

**Y Broses Ddethol**

Ar ôl cau'r ffenestr gwneud cais, bydd pob cais yn cael ei ystyried gan banel. Bydd y Panel yn cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru, Cymdeithas y Sioeau a Sefydliadau Amaethyddol (ASAO) ac aelod annibynnol. Bydd pob cais yn cael ei sgorio yn ôl ei haeddiant wrth fodloni'r meini prawf a amlinellwyd uchod a sut y mae'n dangos y gwerth gorau am arian.

Y nod yw cefnogi cymaint o sioeau â phosibl ac er efallai na fyddwn yn gallu cefnogi cost gyfan prosiect, efallai y byddwn yn gallu cynnig cyfraniad. Fe all y Panel wahodd rhai ymgeiswyr am gyfweliad os bydd angen.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hysbysu o fewn 28 diwrnod i gau'r ffenestr gwneud cais.

Os yn llwyddiannus, rhaid cadarnhau eich bod yn derbyn y grant a ddyfarnwyd o fewn pedwar ar ddeg diwrnod gwaith i'r dyddiad yn y llythyr cymeradwyo.

**Talu'r Grant**

Bydd CAFC yn gweinyddu'r arian.

**Y Broses gyda Cheisiadau**

Bydd y taliad yn cael ei wneud trwy drosglwyddiad electronig i gyfrif banc penodedig. Bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus anfon adroddiad ysgrifenedig i CAFC erbyn diwedd y prosiect yn crynhoi'r gwariant, y prosiect a gyflawnwyd a'r canlyniadau a sicrhawyd. Byddir yn gofyn am hyn ar wahân.

**GDPR y DU**

Mae Cymdeithas Amaethyddol Frenhinol Cymru (CAFC) wedi ymrwymo i ddiogelu'ch data personol a'i brosesu'n unol â'r holl ofynion cyfreithiol. Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael ar gais gan CAFC. Mae CAFC yn prosesu data personol gan fod ei angen i gyflawni ein contract gyda chi i hwyluso'ch mynediad i'r cais. Ni fyddwn yn rhannu'ch data gyda thrydydd parti. Bydd enwau ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu cylchredeg hefyd gydag aelodau'r Wasg a'u cyhoeddi ar ein gwefan. Rydym yn cadw'ch data yn unol â'n hatodlen gadw i symleiddio ceisiadau yn y dyfodol. Mae gennych amrywiol hawliau yn y data a ddaliwn yn cynnwys ei gywiro a gwrthwynebu ei brosesu.

**Amodau**

- Rhaid ichi ddarparu cadarnhad nad oes dim arian cyhoeddus arall (pa un ai gan ffynonellau yn yr UE neu'r DU) wedi'i geisio ar gyfer y prosiect.

- Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd yn gysylltiedig â chais/prosiect llwyddiannus gyfeirio at yr arian gan Lywodraeth Cymru.